CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod rhithwir o'r CABINET yn cael ei gynnal ar Dydd Iau, 17eg Mehefin, 2021 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - 07385406118

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 15 Mehefin 2021. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Derbyn cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2021 yn rhai cywir.

(Tudalennau 5 - 10)

3. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD

Derbyn Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-22, yn dilyn y diwygiadau a gafodd eu hadrodd yn ystod Cyfarfod

Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.

4. RHAGLEN WAITH Y CABINET

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried yn ystod Blwyddyn 2021-22 y Cyngor.

(Tudalennau 11 - 46)

5. GWARIANT YN YMWNEUD Â COVID-19

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, sy'n cyflwyno crynodeb o'r gwariant nad oedd wedi'i gytundebu ond a oedd yn angenrheidiol er mwyn hwyluso cymorth hanfodol a phrydlon mewn perthynas â chyfrifoldebau corfforaethol y Cyngor i'w drigolion a'i weithlu, wrth fynd i'r afael â'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r pandemig Covid-19.

(Tudalennau 47 - 62)

6. TRAFOD SWYDDI SWYDDOGION YMGYSYLLTU Â THEULUOEDD - ADBORTH

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n trafod effaith y posibilrwydd o ymestyn y cynllun Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd sydd ar waith mewn chwe ysgol uwchradd/ysgol pob oed i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â phresenoldeb

(Tudalennau 63 - 78)

7. RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION I WELLA'R DDARPARIAETH ADDYSG YN YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLYN-Y-FORWYN

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n rhannu deilliannau'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynigion i gynnal newidiadau a reoleiddir yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-y-Forwyn ("YGG Llyn-y-Forwyn") trwy symud yr ysgol i adeilad newydd ar safle newydd.

(Tudalennau 79 - 136)

8. RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION I AILDREFNU YSGOLION CYNRADD, YSGOLION UWCHRADD A'R DDARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH YN ARDAL EHANGACH PONTYPRIDD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n rhannu'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â'r cynigion i aildrefnu ysgolion yn ardal ehangach Pontypridd.

(Tudalennau 137 - 184)

9. YMGYNGHORIAD TEITHIO LLESOL: CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n trafod canlyniadau ymgynghoriad teithio llesol a gafodd ei gynnal ar-lein ychydig fisoedd yn ôl, ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

(Tudalennau 185 - 306)

10. ASTUDIAETH TRAFNIDIAETH - CORIDOR GOGLEDD-ORLLEWIN CAERDYDD: Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Rheng Flaen, sy'n rhoi diweddariad am waith ymchwil ar drafnidiaeth a fydd yn nodi'r opsiynau tymor byr a hirdymor gorau o ran cludiant cyhoeddus i wella mynediad o RhCT i Ogledd-orllewin Caerdydd, a thua canol y ddinas.

(Tudalennau 307 - 468)

11. CRONFA LEFELU LLYWODRAETH Y DU - CYFLEOEDD YN RHONDDA CYNON TAF

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n rhoi crynodeb i'r Cabinet o Gronfa Lefelu Llywodraeth y DU a'r cyfleoedd a'r amserlenni prosiect posibl ar gyfer datblygu, arfarnu a chyflwyno ceisiadau.

(Tudalennau 469 - 478)

12. Y SWYDDFA GARTREF - EHANGU'R CYNLLUN GWASGARU CEISWYR LLOCHES

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned sy'n gofyn am gefnogaeth ar gyfer cyfranogiad y Cyngor yng Nghynllun Ehangach Gwasgaru Ceiswyr Lloches y Swyddfa Gartref.

(Tudalennau 479 - 484)

13. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd G Hopkins

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella